

Cofnodion y Cyngor - cyfarfod 165

Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Gwener 18 Mai 2018.
Lleoliad:	Ystafell Siapan, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd
Yn bresennol:	Phil George (PG) Cadeirydd, Andy Eagle (AE), Mike Griffiths (MG), Melanie Hawthorne (MH), Andrew Miller (AM), Dafydd Rhys (DRhh), Richie Turner (RT), Alan Watkin (AW) a Marian Wyn Jones (MWJ) a ymadawodd ar ôl eitem 9.2.
Yno:	Nick Capaldi (NC), Gwyn Williams (GW), Dr Kath Davies (KD), Siân Tomos (ST), Angela Thomas (AT), Louise Wright (LW) a Katy Brown (KB) – cofnodion.
Ymddiheuriadau:	Iwan Bala (IB) , Kate Eden (KE), John Williams (JW) a Rachel O'Riordan (ROR). David Alston (DA), Diane Hebb (DH).
Yn arsylwi:	Andrew Stevenson (AS).
Cyfieithu:	Dafydd Frayling
Cyflwyno:	Emma Robinson (ER), Age Concern
Statws y Papur:	I'w rhyddhau'n gyhoeddus.

		Gweithredu
1.	Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a gafodd ei adleoli o Swyddfa Caerdydd y Cyngor.	
2.	Datganiadau o fuddiant (i'w nodi)	

Gofynnodd Aelodau o'r Cyngor am ddatganiadau o fuddiant i gael eu cofnodi yn y cofnodion (ynghlwm yn Atodiad i'r cofnodion hyn).

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddyddiau lau a Gwener 15 a 16 Mawrth 2018

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Dyweddodd PG na allai Dr Lesley Hodgson, sydd wedi ymddeol o'r Cyngor, ddod i'r cyfarfod hwn oherwydd salwch. Roedd y Cyngor am anfon eu dymuniadau gorau iddi.

Cylch cyflog

Cyflwynodd NC nodyn i'r staff gan gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cylch cyflog ar gyfer 2017/18. Nodwyd y deuai adolygiad cyflog cyn trafod cylch cyflog 2018/19.

Llythyr cylch gwaith

Nododd NC fod y Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon wedi cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr cylch gwaith ar gyfer 2018/19. KB i'w ddsbarthu i'r Cyngor.

KB

Fframwaith sicrwydd corfforaethol a'r gofrestr berygl

Nodwyd y trafodir y fframwaith a'r gofrestr yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl. Bydd ar gael i'r Cyngor yn ei gyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

KB

Cyfathrebu mewnol

Cyhoeddwyd y strategaeth gyfathrebu fewnol ar y fewnrwyd, Hwb. Mae dwy swydd yn y fîm cyfathrebu yn wag ar hyn o bryd. Bydd Betsan Jones yn ymgymryd â swydd Golygydd Cynnwys y We ar 21 Mai 2018. Penodwyd Siôn Brynach yn bennaeth cyfathrebu newydd ac ymgwymer â'r swydd ar 11 Mehefin 2018.

4. Materion sy'n codi

Nodwyd bod yr holl weithredoedd wedi'u cyflawni.

5. Adroddiadau Pwyllgor

5.1 Cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl - 7 Mawrth 2018

Gofynnodd DRh am wneud mân ddiwygiad i'r cofnodion. KB i roi gwybod i gofnodwr y Pwyllgor.

Nodwyd yr adroddiad.

KB

5.2 Cyfarfod Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol - 2 Mai 2018

Rhoes MG adroddiad am y cyfarfod diwethaf.

Nodwyd yr adroddiad.

5.3 Cyfarfod Grŵp Monitro'r Gymraeg - 20 Ebrill 2018

Rhoes MWJ adroddiad am y cyfarfod diwethaf.

Y Theatr Gymraeg

Eitem benodol a drafodwyd oedd ffyrdd o ehangu'r Theatr Gymraeg, llenyddiaeth Gymraeg a'r celfyddydau Cymraeg eraill er mwyn i'r Cyngor allu cynyddu ystod a hyd a lled y gweithgarwch Cymraeg yng Nghymru.

Rhaglen Dysgu Creadigol

Briffiwyd y grŵp gan DH am fewnbwn Cymraeg i ysgolion drwy raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Monitrir o hyd y cydbwysedd rhwng gweithgareddau Cymraeg a Saesneg.

Urdd Awduron Cymru

Yn y cyfarfod nododd NC ei fod wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Urdd yr Awduron. Codasant ddiffyg awduron Cymraeg yn destun pryder iddynt hwy hefyd. Er gwaethaf arolygon sy'n awgrymu y cyflwynir rhagor o waith gan y theatr Gymraeg ledled Cymru, ymddengys fod ffigurau mynychu wedi gostwng.

Roedd PG yn falch o weld cynnydd o draean mewn cynrychiadau Cymraeg gan Theatr Clwyd a chynnydd sylweddol yng nghanran y gynulleidfa sy'n mynychu'r gwaith.

Nodwyd yr adroddiad.

5.4 Cyfarfod Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol - 26 Ebrill 2018

Rhoes MH adroddiad am y cyfarfod diwethaf.

Ystyriodd y grŵp yr adran am Werthoedd yn 7 nod llesiant a sut i newid ymddygiad sefydliadol.

Gweithredu grwpiau monitro yn y dyfodol

Ceisiodd MH farn y Cyngor ynghylch a ddylai'r grŵp barhau ar ei ffurf bresennol.

Mae Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant yn flaenoriaeth sydd wedi'i hymgorffori ym mhob agwedd ar waith y Cyngor. I adlewyrchu hyn, gallai fod budd mewn cyfuno'r tri grŵp presennol yn un endid. Nododd MH y gallai hyn hefyd ysgafnhau'r baich gweinyddol ar gyfer y staff.

Nododd aelodau fod gan grwpiau monitro gyfrifoldebau adrodd penodol sy'n gysylltiedig â'n hadroddiadau blynyddol statudol. Rhaid cadw'r swyddogaeth hon er y nodwyd y gellid parhau i'w wneud gydag un grŵp.

Daethpwyd i'r casgliad y dylid archwilio'r cwestiwn hwn yn ymarfer hunanasesu nesaf y Cyngor.

Cynhadledd Swyddfa Archwilio Cymru ar bwnc Cenedlaethau'r Dyfodol
Aeth KD, ST ac NC i'r gynhadledd a gynhaliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Braff oedd nodi bod y Cyngor wedi'i amlygu yno'n enghraifft o arfer da.

Nodwyd yr adroddiad.

PG

6. Busnes y Cadeirydd

6.1 Adroddiad y Cadeirydd

Soniodd PG am ddigwyddiadau a materion diweddar.

Nodwyd yr adroddiad.

6.2 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl

Yn ei gyfarfod diwethaf, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o amgylch protocolau sy'n ymwneud â phenodi cadeiryddion pwyllgorau. Cytunwyd y

<p>ceisiai'r Cyngor gyngor cyfreithiol. Cadarnhaodd y cyngor cyfreithiol hwnnw fod cod ymarfer gorau'r Cyngor yn disgrifio'n ddigonol brosesau a gweithdrefnau'r Cyngor.</p> <p>Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i benodi KE yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl.</p>	
<p>6.3 Recriwtio aelodau i'r Cyngor</p> <p>Nododd PG fod 13 aelod o'r Cyngor ar hyn o bryd, gyda 9 dyn a 4 menyw. Cytunwyd nad oedd hyn yn dderbyniol.</p> <p>Anela PG at recriwtio 6 aelod newydd gyda lleiafswm o 4 menyw. Bydd PG hefyd yn mynd ar drywydd recriwtio pobl dduon, Asiaidd, ethnig ac anabl yn ogystal â phobl ifainc. Roedd iaith a daearyddiaeth hefyd yn feini prawf a oedd yn berthnasol i recriwtio.</p> <p>Nodwyd mai proses a reolir gan Lywodraeth Cymru yw penodi i'r Cyngor. Anogwyd PG i berswadio Llywodraeth Cymru i fabwysiadu strategaeth recriwtio fwy rhagweithiol i gynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr posibl.</p> <p>Awgrymwyd y byddai rownd nesaf y sgysiau creadigol yn gyfle i ehangu'r broses recriwtio. Cytunwyd na ddylid rhuthro'r broses am nad oes arnom eisiau'r aelodau newydd tan Ebrill 2019.</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	<p>PG</p>
<p>6.4 Hunanasesiad y Cyngor</p> <p>Bob blwyddyn mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'i berfformiad. Portha canlyniadau'r adolygiad hwnnw y datganiad llywodraethu sy'n ymddangos yn ein cyfrifon statudol.</p> <p>Cynhaliodd y Cyngor ei hunanasesiad diwethaf ym Mai 2017 gan ganolbwyntio ar nodweddion llywodraethu da.</p> <p>Trafodwyd y broses hunanasesu a chytunwyd i neilltuo amser ychwanegol penodol iddi yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>PG</p>
<p>7. CArtrefu</p> <p>Rhoddyd cyflwyniad gan Emma Robinson, Rheolwr Rhaglen y Celfyddydau a Chreadigrwydd, Age Cymru am y cynllun, CArtrefu.</p>	

Diolchwyd iddi am y cyflwyniad a oedd yn llawn gwybodaeth ac yn drawiadol.

9. Polisi, cynllunio a gweithrediadau

9.1 Cynllun Corfforaethol 2018-23 – targedau

Yn y Cyngor diwethaf, cytunwyd yn fras ar amlinelliad y cynllun newydd am 2018-23.

Nid oedd y Cyngor yn fodlon, fodd bynnag, ar ba mor dda yr adlewyrchid pob uchelgais yn y targedau penodol yn y cynllun.

Roedd nifer o bryderon:

- nid oedd geiriad braidd yn llwm y targedau arfaethedig yn gweddu'n dda gyda gweddill y ddogfen a oedd yn llawer mwy hygyrch
- oherwydd y diffyg cyd-destun, roedd yn anodd asesu pa mor uchelgeisiol (neu beidio) yr oedd y targedau
- rhaid i'r targedau gwmpasu ystod ehangach o'n gweithgareddau arfaethedig

Gofynnodd aelodau am eglurder ynghylch ffigurau gwaelodlin gan awgrymu mân ddiwygiadau.

Cymeradwywyd y targedau.

9.2 Arolwg y staff

Yn sgil adolygiad sefydliadol y llynedd, cyfrannodd y staff at ddau arolwg a roes iddynt y cyfle i roi sylwadau ar iechyd ac effeithiolrwydd y sefydliad. Cydlynwyd y cyntaf gan dasglu a gynullwyd yn unswydd o aelodau o'r staff; cynhaliwyd yr ail gan ein harchwilwyr mewnol, Deloitte, yn rhan o adolygiad ehangach yn sgil yr adolygiad sefydliadol. Gallasai pobl gyfrannu at y ddau'n ddiennw.

Cyflwynodd ST yr adroddiad ac eglurodd fod y rhaglen waith naill ai eisoes ar waith neu wedi'i chynllunio ar gyfer y dyfodol agos.

Trafodwyd canlyniadau'r arolwg yn fanwl.

Nododd y Cyngor fod ystod eang o sylwadau ac ymddangosai rhai fel eu

bod yn gwrthddweud ei gilydd. Serch hynny, tristawyd aelodau gan rai o'r sylwadau a nodasant y byddai'n ddefnyddiol i'r Cyngor fyfyrion ar ei rôl a hynny'n rhan o'r gwelliannau yn y dyfodol.

Mae sicrhau cyfathrebu da rhwng y staff a'r Cyngor yn flaenoriaeth uchel. Cytunwyd yn y dyfodol y bydd PG yn anfon nodyn at yr holl staff i dynnu eu sylw at y pynciau trafod allweddol o gyfarfodydd y Cyngor.

Nodwyd cynnwys y ddogfen.

PG

9.3 Gwerthuso ansawdd

Mae gwerthuso ansawdd yn rhan o'n ffordd gyffredinol o fonitro perfformiad artistig y sefydliadau celfyddydol a ariannwn. Ar hyn o bryd, mae hyn yn seiliedig yn bennaf ar adroddiadau ysgrifenedig a gomisiynwn ac oddi wrth ein Cynghorwyr Cenedlaethol sy'n darparu eu sylwadau ar sioeau, arddangosfeydd neu ddiwyddiadau y mynychant ar ein rhan.

Canolbwyntia gwerthuso ansawdd yn bennaf ar waith y 67 sefydliad sydd yn ein Portffolio. Fodd bynnag, nodasom hefyd ein huchelgais i estyn gwerthuso ansawdd i rai prosiectau a ariennir gan y Loteri, er bod hyn wedi profi'n anodd.

Ein cynghorwyr cenedlaethol a fu'n allweddol i'n prosesau – hwy'n draddodiadol a fu'n gweld y gwaith ac adrodd arno. Fodd bynnag, bu'n heriol i sicrhau cysondeb o ran sut yr ydym yn ei wneud a ble yr ydym yn ei wneud.

Cyflwynodd NC y ddogfen gyda'n cynigion ar gyfer newid. Adolygwyd drafft o'r ddogfen gan ein harchwilyr mewnol, Deloitte.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad.

Cytunwyd ar y ffordd newydd o fynd ati a gynigiwyd. Nodwyd hefyd y câi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl.

10. Rhyngwladol

10.1 Cymru yn Fenis

Briffiodd LW aelodau am ddewis yn ddiweddar yr artist ar gyfer Cymru yn Fenis. Dewiswyd y gwaith gan Bwyllgor Ymgynghorol Fenis, dan

gadeiryddiaeth MH.

Cyhoeddir enw'r artist ar 25 Mai 2018. Bydd embargo ar ddatganiad y wasg tan y cyhoeddiad a gofynnwyd i aelodau Cyngor gadw'r enw'n hollol gyfrinachol.

Diolchodd PG i MH, LW a'r fîm am eu gwaith caled.

11. Busnes y Prif Weithredwr

11.1 Adroddiad y Prif Weithredwr

Manylodd yr Adroddiad ar gyfarfodydd, digwyddiadau a pherfformiadau diweddar yr oedd wedi'u mynychu.

Cynhwysodd yr adroddiad hefyd wybodaeth am y staff a ymunodd ac a ymadawodd ers y cyfarfod diwethaf.

Nodwyd yr adroddiad.

11.2 Adeiladu Gwydnwch – ariannu'r celfyddydau gan arian nad yw'n gyhoeddus

Ym Mawrth 2018, cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gan y Cynulliad Cenedlaethol ganfyddiadau ei ymchwiliad i ariannu'r celfyddydau gan arian nad yw'n gyhoeddus.

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y cyfeiriad yn llythyr cylch gwaith y Cyngor (2017/18) am annog sefydliadau i fod yn llai dibynnol ar arian cyhoeddus. Ni ddadleuai am y rhinwedd o sicrhau cael y gwerth gorau ar gyfer pob punt o arian cyhoeddus, ond hoffai'r Pwyllgor archwilio ymarferoldeb o godi arian o ffynonellau eraill nad oeddynt yn gyhoeddus.

Wrth wneud hynny, archwiliodd y Pwyllgor:

- pa mor llwyddiannus fu'r sector celfyddydau Cymru o ran cynyddu arian nad yw'n gyhoeddus;
- sut y dosberthir arian nad yw'n gyhoeddus i'r celfyddydau ar draws Cymru
- a oedd modelau o'r arfer gorau rhyngwladol y gallai Cymru eu hefelychu

Cynhwyswyd crynodeb o'r argymhellion hefyd.

Nodwyd yr adroddiad.

12. Ariannu

Celfyddydau a Busnes Cymru – y diweddaraf am y sefyllfa ariannu

Y llynedd trafododd y Cyngor opsiynau o ran darparu ystod o wasanaethau datblygu busnes. Roedd hyn yn cynnwys trafod dyfodol Celfyddydau a Busnes Cymru, derbynnydd rheolaidd o arian grant Cyngor y Celfyddydau/Llywodraeth Cymru.

Penderfynodd y Cyngor ariannu Celfyddydau a Busnes Cymru ar sail bontio am hyd at ddwy flynedd, ar lefel £70,000 y flwyddyn. Y bwriad oedd rhoi amser ac adnoddau iddynt fynd yn hunangynhaliol.

Roedd hynny'n flwyddyn yn ôl. Cyflwynodd swyddogion adroddiad am y cynnydd cyn dechrau ar yr ail flwyddyn a'r olaf o'r trefniant ariannol presennol.

Cyflwynodd ST yr adroddiad diweddaraf o gynnydd yn erbyn y cerrig milltir.

Cytunwyd clustnodi arian ail flwyddyn o £70,000 ar gyfer 2018/19, yn ddarostyngedig i dderbyn adroddiad ffurfiol gan Gelfyddydau a Busnes Cymru sy'n:

- crynhoi'r cynnydd yn 2017/18
- diweddarau targedau carreg filltir y chwarter olaf
- darparu fersiwn wedi'i diweddarau o'r cynllun busnes a cherrig milltir ar gyfer 2018/19

13. Adroddiadau am wybodaeth

13.1 Opsiynau eiddo Plas Bute

Cyflwynodd GW y ddogfen sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol ein swyddfa yng Nghaerdydd. Mae ei phrydles gyfredol yn dod i ben ar 31 Ionawr 2019.

Ystyriwyd ystod o eiddo posibl. Ystyriaeth bwysig oedd yr angen i greu arbedion costau rhedeg yn rhan o'n cynlluniau parhaus i reoli cost.

Yn yr wythnosau diwethaf cafodd GW gynnig da gan y landlord presennol sy'n ymddangos y gallai fod yn sail gost-effeithiol inni aros ym Mhlas Bute.

Nodwyd yr adroddiad a gofynnodd y Cyngor am gael gwybod beth sy'n digwydd wedyn.

GW

13.2 Adroddiad Radar y Portffolio

Sefydlasom adroddiad Radar yn 2011 yn sgil ein hadolygiad buddsoddi cyntaf. Canlyniad adolygiadau 2010 a 2015 oedd newidiadau sylweddol yn ein Portffolio. Lleihawyd nifer y sefydliadau sy'n cael arian craidd gennym o

104 i 66 a chyflwynasom drefniadau newydd i fonitro iechyd sefydliadol a pherfformiad y Portffolio.

Hwn oedd yr ail adroddiad Radar ers cyflwyno'r categori 'cochach'. Mae'r categori hwn yn cynnwys y sefydliadau hynny sy'n wynebu'r her eithafol megis ansolfedd posibl, twyll mewnol, her gyfreithiol, argyfwng staffio neu fethiannau llywodraethu difrifol. Wrth nodi'r cleientiaid 'cochach' hyn, hysbyswyd y Cyngor bod camau unioni yn cael eu dyfeisio a'u dilyn yn drwyadl iawn.

Y newid terfynol yn y ddogfen yw cynnwys adran ynghylch y cynnydd yn ein cylch monitro blynyddol ar gyfer y Portffolio. Ar hyn o bryd yn y cylch, gallwn adrodd ein bod wedi cytuno ar y cytundebau ariannu ar gyfer 2018/19 ac wedi rhyddhau llawer o daliadau'r chwarter cyntaf.

Nodwyd yr adroddiad.

13.3 Cynllun Gweithredol 2017/18 - adroddiad am chwarter 4

Nododd y Cyngor yr adroddiad diwedd y flwyddyn a adolygai gynnydd yn erbyn ein targedau.

14. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dydd Gwener 6 Gorffennaf 2018, Cyngor Celfyddydau Cymru, Caerdydd.

Cyfarfod y Cyngor:
Dydd Gwener 18 Mai 2018:

Crynodeb o weithredoedd a phenderfyniadau

Eitem agenda	Gweithredu/penderfyniad	Cyfrifoldeb
3	Llythyr cylch gorchwyl ar gyfer 2018/19 i'w ddsbarthu i aelodau o'r Cyngor.	KB
3	Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a'r Gofrestr Berygl i fod ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor (Gorffennaf).	KB
5.1	Rhoi gwybod i gofnodwr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl am newid i'r cofnodion.	KB
5.4	Y Cyngor i archwilio (yn ystod ei sesiwn hunanasesu) y syniad o gyfuno'r tri grŵp monitro presennol.	PG
6.3	PG i gydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses recriwtio i'r Cyngor yn cyrraedd grŵp ehangach a mwy amrywiol o ymgeiswyr posibl.	PG
6.4	Dylid neilltuo amser yng nghyfarfod nesaf y Cyngor i wneud yr hunanasesiad.	PG
9.2	Cyfathrebu canlyniadau allweddol cyfarfodydd y Cyngor i'r staff.	PG
13.1	Cyngor i gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau pellach o ran swyddfeydd Caerdydd ym Mhlas Bute.	GW